

<p><b>Cymdeithas yr Iaith: PECYN YMARFEROL I HYBU'R GYMRAEG YN EIN CYMUNEDAU 'AR Y CYD'</b></p> <p><b>Cymunedau Byw</b></p> <p>Pecyn i chi a'ch cymuned yw'r ddogfen hon. Pwrpas y pecyn yw sbarduno a datblygu storfa o syniadau ymarferol i weithredu arnyn nhw o fewn eich cymuned.</p> <p>Mae'n cynnwys enghreifftiau a chanllawiau ond y prif amcan yw ei ddefnyddio fel arf i gychwyn trafodaeth gydag unigolion, busnesau, grwpiau neu gymdeithasau yn eich ardal chi.</p> <p>Wrth gyflwyno'r pecyn yma y gobaith yw darganfod 'sbardunwyr' cymunedol fydd yn gallu mynd i'r afael â'r gwaith hollbwysig yma i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw, i'w gweld a'i chlywed yn eich cymuned.</p> <p>Ar ddiwedd y ddogfen mae rhestr o gynulleidfa bosib y gellir cyflwyno'r ddogfen iddyn nhw.</p> <p>Mae'n bwysig pwysleisio mai pecyn yw hwn er mwyn ychwanegu ato a'i ddatblygu.</p> <p><b>Amcanion</b></p> <p>Bwriad y pecyn yw rhoi hwb i weithgareddau cymunedol Cymraeg. Ei nod yw bod yn sail i batrwm o weithredu parhaus fydd yn sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed gan bawb.</p> <p>Wrth drafod y pecyn yma bydd syniadau am weithgareddau yn datblygu'n naturiol o ddymuniadau'r grwpiau/unigolion/busnesau sy'n cael eu cyflwyno i'r syniadau.</p>	<p><b>Cymdeithas yr Iaith: A PRACTICAL RESOURCE FOR PROMOTING WELSH 'TOGETHER' IN OUR COMMUNITIES</b></p> <p><b>Living Communities</b></p> <p>This document is for you and your community. It was designed to motivate and develop a store of practical ideas to be used within your community.</p> <p>It includes examples and guidelines, but the main objective is to use it as a tool for initiating discussions with individuals, businesses, groups or societies in your area.</p> <p>By introducing this resource we hope to find 'motivators' in the community who will be able to tackle this all important work to ensure that Welsh is a living language, to be seen and heard in your community.</p> <p>A list of possible audiences to whom you could introduce the document is included at the end of the document.</p> <p>It's important to emphasise this resource was designed to be added to and developed.</p> <p><b>Aims</b></p> <p>This resource was designed to promote Welsh language activities in the community. It is intended to act as a foundation for a pattern of continuous action that will ensure Welsh can be heard by all.</p> <p>When discussing the document, ideas about activities will naturally develop in response to the wishes of groups /individuals / businesses that are shown the ideas.</p>
--	---

Bydd gweithredu ar y syniadau yn sicrhau bod hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu.

Rydyn ni'n cydnabod bod nifer o enghreifftiau o arfer da yn bodoli eisoes a'r bwriad yw galluogi rhannu arferion da, syniadau a phrofiadau.

Mae'r pecyn yn 'ddogfen fyw' fel bod modd addasu ac ychwanegu ato yn ôl anghenion gwahanol gynulleidfa gan gydnabod bod pob cymuned yn wahanol.

#### Sut mae defnyddio'r pecyn yma?

- Ar y cyd gyda mudiadau ac unigolion sy'n bodloli eisoes yn eich ardal.
- Fel arf i gefnogi ac i godi hyder grwpiau, mudiadau, busnesau a sefydliadau yn eu cymunedau, gan gynnwys rhai mewn ardaloedd sydd heb gefnogaeth ffurfiol mudiadau Cymraeg ar hyn o bryd.
- Fel arf i gefnogi a chodi hyder unigolion sy'n dymuno defnyddio'r pecyn i newid arfer o fewn eu cymunedau.
- Bydd gweithredu'r pecyn hwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith yn ymarferol a thrwy hynny gymryd rhan yn eu cymunedau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig bod cysylltiad cryf yn cael ei wneud rhwng darparwyr cyrsiau Cymraeg / tiwtoriaid Cymraeg yn yr ardal er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun.
- Bydd gweithredu'r pecyn, drwy roi hyder i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn codi statws yr iaith, ac yn creu ymwybyddiaeth o'i

By implementing the ideas, people's confidence to use Welsh will increase.

We recognize that many examples of good practice already exist and the intention is to enable good practices, ideas and experiences to be shared.

The resource is a 'live document' meaning that it can be adjusted and added to according to different audiences' needs whilst acknowledging that each community is different.

#### How should this resource be used?

- Jointly with organizations and individuals who already exist in your area.
- As a tool to support and raise the confidence of groups, organisations, businesses and establishments within our community, including those in areas without the current support of Welsh organisations.
- As a tool for supporting and increasing the confidence of individuals wishing to use the resource to change habits within their communities.
- Using this resource will provide learners with a chance to use the language practically, thereby contributing to their communities through the medium of Welsh. It's important that a strong bond is formed between Welsh course providers / Welsh tutors in the area to ensure the success of the scheme.
- Implementing the resource, by giving people the confidence to use Welsh, will raise the status of the language, and create an awareness

<p>hanes a'i diwylliant .</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall y pecyn fod yn gyfrwng i annog digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg lle nad oedd gweithgaredd cyn hynny.</li> </ul> <p><b>Cyflwyno'r pecyn</b></p> <p>Mae modd manteisio ar ddigwyddiad penodol neu fynd ati i gynnal digwyddiad er mwyn rhoi cyflwyniad, e.e. cael slot penodol i siarad mewn cyfarfod pwylgor y neuadd bentref neu fynd ati i gynnal bore coffi.</p> <p><b>Sut mae paratoi i gyflwyno'r pecyn?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eglurwch egwyddorion y pecyn i'r grŵp</li> <li>• Gnewch ychydig o waith ymchwil o flaen llaw cyn cyflwyno'r pecyn e.e. darganfod diddordebau'r rhai fydd yno.</li> <li>• Ymchwiliwch: beth yw cryfderau gweithgareddau lleol drwy'r Gymraeg? Beth yw cryfderau'r grŵp rydych chi'n siarad â nhw?</li> <li>• Trafodwch sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. Mae data ynglŷn â niferoedd o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg fesul cymuned ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: comisiynyddygymraeg.cymru</li> <li>• Cyfeiriwch at y ffaith nad yw hanes lleol yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion a bod angen hefyd i blant glywed llawer mwy o Gymraeg tu allan i furiau eu hysgolion.</li> <li>• Sut mae sicrhau bod yr iaith yn cael ei gweld a'i chlywed yn llawer mwy yn lleol.</li> </ul>	<p>of its history and culture</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• The resource can be a means of promoting events through the medium of Welsh where there was no activity before.</li> </ul> <p><b>Introducing the resource</b></p> <p>You can take advantage of a specific event or go ahead and plan your own introductory event, i.e. organise a specific slot to speak at a village hall committee meeting or hold a coffee morning.</p> <p><b>How can I prepare to introduce the resource?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Explain the principles of the resource to the group.</li> <li>• Do some research before introducing the resource i.e. find out the interests of those attending.</li> <li>• Research: what are the strengths of local activities in Welsh? What are the strengths of the group you are talking to?</li> <li>• Discuss the situation of Welsh locally. Data regarding the number of people capable of speaking Welsh per community is available on the Welsh Language Commissioner's website: <a href="http://comisiynyddygymraeg.cymru">comisiynyddygymraeg.cymru</a></li> <li>• Refer to the fact that local history is not taught in schools and that children need to hear much more Welsh beyond the walls of their school.</li> <li>• How can we ensure that the language is seen and heard much more locally.</li> </ul>
---	--

- Wrth drafod ac annog syniadau uchelgeisiol, rhowch bwyslais ar weld parhad a chysondeb a bod angen i unrhyw weithgaredd fod yn hunan gynhaliol ac yn realistig o ran cyrhaeddiad.
- Mae angen adnabod unigolion posib i'w meithrin fel sbardunwyr fydd yn gallu mynd ati i weithredu a gwireddu rhai o'r syniadau fydd yn codi yn ystod y drafodaeth.

### **Syniadau ar gyfer gweithgareddau cymunedol**

Bydd angen cynnig syniadau er mwyn i bobl ddechrau meddwl am opsiynau posib a'u sbarduno i gynnig rhai newydd. Dyma rai enghreifftiau:

- Grŵp diddordeb penodol e.e. garddio, cadw'n heini, ioga, coginio, darllen.
- Clwb cerdded (cydweithio posib â Chymdeithas Edward Llwyd).
- Grwpiau 'Cerdded y Ci'.
- Sesiwn pentref e.e. 'Sadwrn Sbwriel' drwy'r Gymraeg i dacluso'r ardal.
- Sesiynau sgwrsio (mewn tafarn neu gaffi).
- Clwb Cadw'n Heini / Pwysa a Mesur.
- Grŵp Hanes Lleol: sesiynau 'adnabod bro' trwy hanes lleol: cysylltu â'r ysgolion lleol i weld beth yw prosiectau'r disgylion.
- Cynnal twmpath neu ddigwyddiad anffurfiol i ddenu pobl newydd / mewnfudwyr.

- When discussing and encouraging ambitious ideas, place an emphasis on continuity and consistency, and that any activity needs to be self-sufficient and realistic in terms of achievement.
- Potential individuals need to be identified as motivators who will be able to take action and achieve some of the ideas that will arise during the discussion.

### **Ideas for community activities**

Ideas will need to be suggested so people can start thinking about possible options and encouraging them to offer new ones. Here are some examples:

- A specific interest group i.e. gardening, keeping fit, yoga, cooking, reading.
- A walking club (possible collaboration with Edward Llwyd Society).
- Dog walking groups
- Village session i.e. 'Collecting Rubbish on Saturday' tidying the area in Welsh.
- Discussion groups (in a pub or cafe).
- Keep Fit Club / Weigh and Measure.
- Local History Group: 'recognising the heartland' through local history: contacting local schools to see what pupils' projects are.
- Hold a dance or informal event to attract newcomers /immigrants.

- Trefnu gig (gallech gysylltu â Chymdeithas yr Iaith neu'r Fenter Iaith leol am gefnogaeth). Efallai bod modd defnyddio cefnogaeth ariannol cynllun Noson Allan.
- Atgyfodi digwyddiadau oedd yn arfer bodoli yn yr ardal / y pentref e.e. carnifal, diwrnod mabolgampau, cystadlaethau neu eisteddfod.
- Trefnu digwyddiadau ar ddiwrnodau unigryw i Gymru: Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen, Dydd Llywelyn, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Owain Glyndŵr, Dydd Calan a'r Fari Lwyd.

**Ofni bod cynnal digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn eithrio pobl eraill yn y gymuned?**

Mae Radio Beca wedi awgrymu nifer o ffyrdd o groesawu mewnfudwyr heb wanhau'r Gymraeg (y ddogfen ar dudalen gwe y pecyn). Beth am wneud cais i gynrychiolydd o Radio Beca i roi cyflwyniad i'r gymuned?

**Cyflwyno'r pecyn i unigolion a busnesau**

Mae angen arfogi unigolion er mwyn codi eu hyder yn y Gymraeg. Gall hyn gynnwys:

- Eu cyfeirio at lefydd i gael hyfforddiant iaith a gwersi Cymraeg yn lleol yn ogystal â gwefan Say Something in Welsh. [saysomethinginwelsh.com/dysgucymraeg.cymru](http://saysomethinginwelsh.com/dysgucymraeg.cymru)
- Eu hannog i ddefnyddio adnoddau Diwrnod 'Shwmae Su mae'. Mudiad Dathlu'r Gymraeg shwmae.cymru
- Cynnig syniadau ar sut i godi statws y Gymraeg, e.e. arwyddion

- Organise a gig (you could contact Cymdeithas yr Iaith or the local Welsh language initiative for support). It may be possible to use the Night Out scheme for financial support.
- Resurrect events that used to exist in the area / village e.g. carnival, sports day, competitions or eisteddfod.
- Organize events on days which are unique to Wales: St.David's Day, Santes Dwynwen, Dydd Llywelyn, Diwrnod Shwmae, Dydd Owain Glyndŵr, May Day and Mari Lwyd.

**Are you concerned that holding events through the medium of Welsh excludes other people in the community?**

Radio Beca has suggested a number of ways of welcoming immigrants without weakening the Welsh language (the document is on the resource's webpage). How about asking a representative from Radio Beca to give a presentation to the community?

**Introducing the resource to individuals and businesses**

Individuals need to be equipped to raise their confidence in Welsh. This may include:

- Directing them to places offering Welsh language training and lessons, as well as the website Say Something in Welsh. [saysomethinginwelsh.com/dysgucymraeg.cymru](http://saysomethinginwelsh.com/dysgucymraeg.cymru)
- Encouraging them to use Diwrnod 'Shwmae Su mae'. Mudiad Dathlu'r Gymraeg shwmae.cymru resources
- Offering ideas around how to raise the status of Welsh i.e. Welsh

<p>Cymraeg / bathodynnau ayyb. Cysylltu â'r Fenter iaith leol ar eu rhan neu ar y cyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Awgrymu cyfleoedd iddynt ymarfer y Gymraeg (yn lleol os yn bosib). Sefydlu grŵp sgwrsio er mwyn dechrau ymarfer Cymraeg.</li> </ul> <p><b>Cynulleidfa darged o ran cyflwyno'r pecyn:</b></p> <p><b>Sefydliadau / Mudiadau</b></p> <p>Pwyllgorau Neuadd Cymdeithasau Canghennau Merched y Wawr / Clybiau Gwawr Canghennau Sefydliad y Merched Pwyllgorau Capeli / Eglwysi Clybiau e.e. chwaraeon, cerdd, gwerin, darllen Clybiau Ffermwyr Ifanc Aelwydydd yr Urdd Cyngorau Cymuned</p> <p><b>Busnesau</b></p> <p>Siopau nwyddau Safle sy'n cynnwys gwasanaeth e.e. gorsaf drenau Garejys Caffis a thafarndai Cwmnïau bach</p> <p><b>Unigolion</b></p> <p>Pobl frwdfrydig / sbardunwyr dros yr iaith Hyfforddwyr e.e. clybiau chwaraeon Unigolion sy'n darparu gwasanaeth</p>	<p>signs / badges etc. Contacting the local Welsh language Initiative on their behalf or together.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Suggest opportunities for them to practise Welsh (locally, if possible). Set up a discussion group to start practising Welsh.</li> </ul> <p><b>Target audience for introducing the resource:</b></p> <p><b>Establishments / Organizations</b></p> <p>Hall Committees Societies Merched y Wawr Societies / Gwawr Clubs Women's Institute Societies Chapel Committees / Churches Clubs i.e. sports, music, folk, reading Young Farmers Clubs Aelwydydd yr Urdd Community Councils</p> <p><b>Businesses</b></p> <p>Shops Locations offering a service i.e. train station Garages Cafes and pubs Small businesses</p> <p><b>Individuals</b></p> <p>Confident people / language promoters Trainers i.e. sports clubs Individuals offering a service</p>
---	--

Mae'n bosib ychwanegu at y rhestr yma wrth gwrs.

### Adeiladu ar y Pecyn

#### Datblygu adnoddau a chanllawiau:

Gallwch lawrlwytho'r adnoddau canlynol o cymdeithas.cymru/pecyn.

- Cwsi Y Flwyddyn
- Cynnal nosweithiau difyr drwy ddefnyddio adnodd 'Hanes yr iaith mewn 50 gair'
- Cynnal Noson Enwau Lleoedd
- Canllaw Cyfieithu Cymunedol ar gyfer digwyddiadau
- Cynnal Dathliadau Arbennig
- Canllaw Dewch am Dro i deuluoedd
- Canllaw Diwrnod Hanes o Agor y Drws – dull dysgu Say Something in Welsh Blog defnyddiol

Mae croeso i unrhyw un ychwanegu at yr adran yma drwy gysylltu â:

Cymdeithas yr iaith, Prif Swyddfa, Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth,  
SY23 2AZ: 01970 624501; [post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru); nia@cymdeithas.cymru

Additions can be made to this list, of course.

### Building on the resource

#### Developing resources and guidance:

You can download the following resources from cymdeithas.cymru/pecyn.

- Quiz of the year
- Organise entertainment evenings by using the resource 'History of the language in 50 words'
- Organise a Naming Places Evening
- Community Translation Guidance for events
- Organise Special Celebrations
- Dewch am dro guidance for families
- Diwrnod Hanes o Agor y Drws Guidance – Say Something in Welsh Blog, a useful learning method

Anyone is welcome to add to this section by contacting:

Cymdeithas yr iaith, Prif Swyddfa, Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth,  
SY23 2AZ: 01970 624501; [post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru); nia@cymdeithas.cymru